



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## AR DRYWYDD DYSGU

**Dod â buddion i ddysgwyr, rhieni, gofalwyr ac ymarferwyr**

### ELEANOR PHILLIPS

Yn ystod ei hymarfer dysgu, nid oedd Eleanor Phillips yn awyddus i wneud ei lleoliad mewn ysgol arbennig yn Abertawe. Ugain mlynedd yn ddiweddarach, mae hi'n credu mai dyna'r peth gorau a wnaeth hi erioed – mae hi'n caru ei swydd ac wrth ei bodd yn treulio amser gyda phlant gwych sy'n gwneud iddi wenu bob dydd.

Mae ei gwybodaeth a'i harbenigedd ym maes anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn golygu ei bod yn rhywun addas iawn i helpu Llywodraeth Cymru i ddiweddarau ei deunyddiau Ar Drywydd Dysgu fel rhan o ddatblygiad Cwricwlwm i Gymru. Yma mae hi'n esbonio'r broses a'r buddion a ddaw yn ei sgil.



### GWEITHIO'N GYD-ADEILADOL I WNEUD Y DEUNYDDIAU'N HAWDD EU DEFNYDDIO

Mantais y deunyddiau Ar Drywydd Dysgu sydd wedi'u diweddarau yw eu bod wedi'u datblygu'n gyd-adeiladol gydag ymarferwyr fel fi, sy'n gweithio gyda phlant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol bob dydd ac yn cydnabod pa mor wahanol yw eu holl anghenion a'r hyn y gallan nhw ei gyflawni fel unigolion.

Wrth ddatblygu y deunyddiau Ar Drywydd Dysgu sydd wedi'u diweddarau, gweithiais gydag eraill yn y maes i adolygu'r canllawiau, diweddarau'r derminoleg, coladu a chymedroli enghreifftiau fideo, ac yn gyffredinol gwneud y deunyddiau'n fwy hawdd eu defnyddio ar gyfer athrawon a chynorthwywyr addysgu newydd.

Gwnaethom ni hefyd wneud cyflwyniadau mewn digwyddiadau ymgysylltu er mwyn casglu adborth mawr ei angen – profiad a'm llanwodd ag ofn gan nad ydw i wedi arfer â siarad yn gyhoeddus ond mae'r gwaith hwn mor bwysig fel fy mod yn rhoi fy nerfuswydd i'r naill ochr – ond peidiwch â gofyn imi ei wneud yn rhy aml!

### EU RHOI AR WAITH

Yn fy marn i, mae Ar Drywydd Dysgu yn adnodd asesu perffaith i athrawon ei ddefnyddio gyda'u dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog (ADDLI). Mae'r deunyddiau sydd wedi'u diweddarau'n llawer haws eu defnyddio ac yn fwy hygyrch – help mawr, yn enwedig i'r rhai sy'n newydd i'r maes.

Yn Ysgol Crug Glas er enghraifft, rydym ni wedi defnyddio deunyddiau Ar Drywydd Dysgu i nodi, dal a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser. Gall eu defnyddio fel hyn helpu pob ymarferydd i nodi dysgwyr a allai fod angen newid yn y strategaeth addysgu er mwyn hybu eu dysgu, a sicrhau llwyddiant i'r plentyn yn y pen draw.



### BUDDION I DDYSGWYR, RHIENI A GOFALWYR

Mae bob amser yn wir, os yw'r ymarferwyr yn hyderus yn yr hyn maen nhw'n ei gyflawni, bydd y dysgwyr yn teimlo'r budd. Gellir codi syniadau ffres o'r deunyddiau, gan gynnig cyfleoedd newydd a gwahanol i'r dysgwyr tra bydd datblygu sgiliau yn rhoi mwy o allu iddyn nhw gyfathrebu a rheoli eu hamgylchedd.

Yr hyn sy'n wych am y deunyddiau Ar Drywydd Dysgu sydd wedi'u diweddarau yw'r cyfle maen nhw'n ei ddarparu i ddangos cynnydd camau bach, cymaint yn well na'r datganiadau 'Gweithio tuag at' roeddem ni'n arfer eu defnyddio. I rieni a gofalwyr, mae clywed am y camau bach hyn a gymerir gan eu plant yn gymaint o hwb. Mae'r derminoleg newydd hefyd gymaint yn well i helpu rhieni a gofalwyr i ddeall sut mae eu plentyn yn datblygu – pwy oedd yn deall 'Ymwybyddiaeth o Ddibynniaeth'? Rydym ni nawr yn dweud 'Dangos dealltwriaeth bod gweithred ganddo yn achosi effaith benodol' – cymaint yn well.

### CYSYLLTU Â CHWRICWLWM I GYMRU

Cafodd Ar Drywydd Dysgu ei ganmol gan yr Athro Graham Donaldson, ffigwr allweddol yn natblygiad Cwricwlwm i Gymru. Mae'n cefnogi dyhead Llywodraeth Cymru i greu system addysg gynhwysol i helpu sicrhau bod gan bob person ifanc, beth bynnag fo'i anghenion, fynediad at safon uchel o addysg ac yn cyrraedd ei lawn botensial.



**ADDYSG CYMRU**  
**EDUCATION WALES**  
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

[hwb.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru/ar-drywydd-dysgu](http://hwb.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru/ar-drywydd-dysgu)